

STAFF LOTTERY



PROSIECTAU'R CELFYDDYDAU
AR GYFER IECHYD A LLES
A GEFNOGWYD GAN
LOTERI'R STAFF 2020/22





Cyflwyniad

Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro sy'n rheoli Loteri'r Staff sy'n rhoi cyfle i staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ennill £1,000 bob wythnos. Mae'n costio £1 yr wythnos i gymryd rhan yn Loteri'r Staff, a chaiff hyn ei ddidynnu'n awtomatig o gyflogres yr unigolyn.

Mae Loteri'r Staff hefyd yn galluogi staff i wneud cais am gyllid drwy Gynllun Llwybr Carlam Loteri'r Staff yr Elusen Iechyd ac wrth Banel Cynigion Loteri'r Staff, sydd wedi dyfarnu grantiau gwerth dros £1.5 miliwn yn ddiweddar i helpu i gefnogi prosiectau niferus ar draws y BIP. Gall y prosiectau hyn amrywio o adnewyddu ystafelloedd staff ac ystafelloedd aros, galluogi staff i fynychu hyfforddiant er mwyn parhau â'u datblygiad personol ac ariannu offer meddygol newydd i fod o fudd i amrywiaeth o gleifion. Gall staff wneud cais am gyllid hyd at £250 drwy'r Cynllun Llwybr Carlam a gellir gwneud cais am gynigion rhwng £250 a £10,000 drwy Banel Cynigion Loteri'r Staff, sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn.

Mae cynllun Loteri'r Staff Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi rhoi arian yn y gorffennol i gefnogi prosiectau'r Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles yn rhan o Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, ac mae eu corff cynyddol o waith yn profi bod ymwneud â'r celfyddydau a gweithgareddau creadigol wedi bod o fudd mawr i gleifion a staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Drwy wahodd cymuned yr ysbyty i gymryd rhan mewn arddangosfeydd, gweithdai, a phrosiectau mwy, mae Rhaglen y Celfyddydau yn darparu cyfleoedd creadigol i bawb, waeth beth fo'u profiad blaenorol.

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar brosiectau'r Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles y rhoddwyd arian iddynt gan Gynllun Loteri'r Staff yn 2020/22 er mwyn cefnogi cleifion, staff a gwirfoddolwyr y GIG a'n cymunedau.

Mae Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles yn gweithio i wella bywydau cleifion a staff drwy'r celfyddydau creadigol. Drwy gefnogi Rhaglen y Celfyddydau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, rydych yn dod â lliw, gobaith, a hunanfyneiant i safleoedd ein hysbytai.

Os hoffech chi wybod mwy am Raglen y Celfyddydau a'i buddion i gymuned yr ysbyty, neu os oes gennych syniad am brosiect creadigol a fyddai'n gweddu i amgylchedd yr ysbyty, ewch i <https://cardiffandvale.art/>

Rydym yn croesawu artistiaid o bob cefndir i'n manau arddangos ar draws Ysbyty Athrofaol Llandochoau ac Ysbyty'r Barri. Os oes gennych ddiddordeb mewn arddangos eich gwaith gyda ni, cysylltwch â ArtsinHealth.Cav@wales.nhs.uk

Sengl Elusen Nadolig Hijinx

Hijinx yw un o brif gwmnïau theatr cynhwysol Ewrop, sy'n anelu at sicrhau cydraddoldeb drwy greu gwaith celfyddydol gwych gydag actorion anabl a/neu awtistig. Mae'r cwmni proffesiynol yn perfformio gwaith o fri mewn amrywiaeth o leoliadau, yn y DU a thramor.

Ledled Cymru, mae Academiâu Hijinx yn darparu hyfforddiant drama proffesiynol ar gyfer 70 o actorion talentog unigryw, sydd â chyflyrau amrywiol fel Syndrom Down, Awtistiaeth a Syndrom Asperger. Mae'r cwmni hefyd yn cynnal ystod o weithgareddau cymunedol a rhaglenni hyfforddiant corfforaethol.

Rhodddwyd cyllid Loteri'r Staff i noddi Hijinx a'i fand mewnol cynhwysol, Vaguely Artistic, i allu creu record sengl Nadolig elusennol ar gyfer 2020. Gwnaeth y band weithio gydag oedolion a phobl ifanc anabl a/neu niwrowahanol ar y sengl sydd hefyd yn darparu cyfleoedd pellach i godi arian ar gyfer prosiectau cymunedol eraill Hijinx.

Gyda chymorth ysgrifennwr caneuon proffesiynol, cafodd y record sengl ei hysgrifennu, ei chyfansoddi a'i recordio gan y cyfranogwyr, a wnaeth ffilmio fideo cerddoriaeth hefyd, a ryddhawyd wrth ochr y record sengl ar gyfer Nadolig 2020.



Prosiect Treftadaeth y Barri

Mae Prosiect Treftadaeth Ysbyty'r Barri bellach wedi'i osod yn Ystafell Gymunedol Mary Lennox yn Ysbyty'r Barri.

Wedi'i gynllunio'n wreiddiol i ddathlu 25 mlynedd ers sefydlu Ysbyty'r Barri yn 2020, mae'r prosiect hwn a ariennir gan yr Elusen lechyd yn olrhain hanes gofal iechyd yn y Barri a Bro Morgannwg yn ystod y 100 mlynedd diwethaf, ac yn dathlu 25 mlynedd diwethaf Ysbyty'r Barri yn ei leoliad presennol ar Heol Colcot.

Mae arteffactau gwirioneddol a gasglwyd dros y blynyddoedd yn cael eu cynnwys fel rhan o'r arddangosfa, ac mae ffotograffau o Gasgliad y Werin Cymru a staff Ysbyty'r Barri wedi'u cynnwys, sydd wedi arwain at greu wal hanes llawn gwybodaeth a bron yn rhyngweithiol.



Capel i Bawb: Chapel for All'

Paentiad gan Malcolm Murphy

Comisiynwyd yr artist Malcolm Murphy gan Raglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles, i greu paentiad i gydnabod canmlwyddiant y capel yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd a'i ddyfodol disglair a chynaliadwy.

Mae'r Capel wedi bod ar gau i'r cyhoedd ers 1999 ac mae'r adeilad Gradd II wedi'i adfer yn ddiweddar a'i drawsnewid yn ganolfan gymunedol, llyfrgell, caffi, a man cyfarfod i wasanaethu Ysbyty Brenhinol Caerdydd a'r ddinas ehangach mewn modd sy'n cynnig gwerth cymdeithasol, economaidd ac ysbrydol.

Mae'r paentiad yn cyfleu'r olygfa o'r Capel ac Ysbyty Brenhinol Caerdydd o Heol Casnewydd ac yn arddangos ei ffabrig hanesyddol yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd heddiw.



Cardiau Post Ysbyty Brenhinol Caerdydd

Wrth i'r Capel yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd nodi ei ganmlwyddiant, gwnaeth staff a chefnogwyr CRI dderbyn cerdyn o ddiolch am eu cyfraniad i'r ysbyty a'i gymuned.

Mae'r cerdyn yn cynnwys print o'r paentiad Capel i Bawb gan Malcolm Murphy, a gomisiynwyd gan Raglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles ac a fydd yn cael ei arddangos yn y Capel.

Rhoddwyd y cerdyn i staff Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn ogystal â chyfranwyr at Brosiect hirsefydlog y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles - Ysbyty Brenhinol Caerdydd: Pobl, Lle, Dyfodol.



Llinell Amser Ysbyty Brenhinol Caerdydd; 200 mlynedd o ofal iechyd wedi'i drefnu yn cael ei ddarparu yn ardal De a Dwyrain Caerdydd



Roedd Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles, Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn falch o greu llinell amser i adlewyrchu 200 mlynedd o ofal iechyd wedi'i drefnu yn cael ei ddarparu yn ardal De a Dwyrain Caerdydd, sydd bellach yn cael ei arddangos yn y coridor Therapïau yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd.

Mae'r llinell amser yn dilyn taith yr ysbyty ers 1822 wrth iddo symud i nifer o leoliadau, o safle cyntaf Cardiff Dispensary ar Working Street, Yr Aes ac yn y pen draw, i safle presennol Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Mae'r llinell amser yn cofnodi digwyddiadau, cyflawniadau a newidiadau arwyddocaol a ddigwyddodd yn yr ysbyty drwy gydol y cyfnod hwn, yn ogystal â rhoi syniad o sut brofiad fyddai wedi bod i'r cleifion a'r staff a oedd wedi'u lleoli yno.

Curadwyd a chofnodwyd cynnwys y llinell amser gan Bex Betton, a arweiniodd y prosiect, a Gwawr Faulconbridge gyda chefnogaeth amgueddfeydd lleol, archifau, papurau newydd ac aelodau presennol a chyn-aelodau staff. Yna darluniwyd y llinell amser a'i gosod fel finyl ar y wal gan Grosvenor Interiors.

Celf ar gyfer SARC

Cymeradwyodd Panel Cynigion Loteri'r Staff gais i adnewyddu'r gwagle yn Ynys Saff yn y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd, gyda'r nod o greu amgylchedd diogel, llawn cysur i'r rhai sy'n dod i ddefnyddio'r Gwasanaeth Ymosodiadau Rhywiol.

Mae Ynys Saff yn darparu gwasanaeth i unigolion y mae ymosodiad rhywiol wedi effeithio arnynt. Yn dilyn datblygiadau SARC rhanbarthol, mae Ynys Saff eisoes yn Hyb Pediatrig ar gyfer cleientiaid o dan 14 oed, a chyn bo hir bydd yn ganolfan ar gyfer De-ddwyrain Cymru i bobl dros 14 oed sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol aciwt.

Yn dilyn gwaith adeiladu yn yr adran i fodloni'r safonau fforensig sy'n ofynnol i gyflawni archwiliadau meddygol, roedd yr adran yn edrych yn glinigol ac anneniadol iawn. Drwy osod y darluniau o olygfeydd natur mewn mannau aros allweddol, mae'r adran bellach wedi'i thrawsnewid yn ofod diogel a deniadol i unigolion sy'n aros am eu hapwyntiadau a'u harchwiliadau.



Celf ar gyfer SARC - Ardal Plant a Phobl Ifanc

Cymeradwywyd Cam 2 y prosiect 'Celf ar gyfer SARC' i osod finylau wal yn Ardal Bediatrig, Ynys Saff. Yn dilyn datblygiadau rhanbarthol SARC, mae Ynys Saff eisoes yn Hyb Bediatrig yn Neddwyrain Cymru ar gyfer cleientiaid o dan 14 oed sydd wedi profi ymosodiad rhywiol aciwt.

Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar yr ardal Bediatrig, gyda'r nod o greu mannau sy'n addas i blant ar gyfer cyfweiliadau, cefnogaeth, eiriolaeth ac archwilio.



Bydd gwella'r amgylchedd clinigol hwn yn gwneud gwahaniaeth anhygoel i blant o bob rhan o Gaerdydd a'r Fro sydd wedi profi ymosodiad rhywiol, gan mai dyma hefyd lle mae plant o bob rhan o'r de, y gorllewin a'r canolbarth yn cael archwiliadau ffrensieg. Bydd ychwanegu pwyntiau o ddiddordeb a delweddau llawen yn helpu i ddenu sylw cleientiaid iau, a bydd yn eu helpu i deimlo'n ddiogel ac yn sefydlog. Bydd y gwelliannau hyn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar les staff drwy gydol eu rhyngweithio dyddiol â chleientiaid sydd wedi dioddef trawma.

Llecyn Lles Staff yn Llyfrgell Cochrane

Yn ddiweddar, cefnogodd Panel Cynigion Loteri'r Staff brosiect i wella amgylchedd y llecyn lles staff sydd newydd ei greu yn Llyfrgell Cochrane yn Ysbyty Athrofaol Llandochau. Cafwyd cyllid gan Brifysgol Caerdydd i brynu dodrefn, deunydd darllen hamdden, llyfrau lles, gemau a gosod gwybodaeth ar gyfer yr ardal ddynodedig, a bydd arian Loteri'r Staff yn darparu gwaith celf llachar a modern a finylau wal i addurno waliau'r llyfrgell.

Mae'r llyfrgell eisoes yn fan diogel a thawel i staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, lle gallant ddefnyddio cyfrifiaduron i ddal i fyny â hyfforddiant, neu astudio i ffwrdd o amgylchedd prysur yr ysbyty. Yn flaenorol, roedd décor yr ardal wedi dyddio ac yn anghynnes, ac nid oedd man ymlacio dynodedig ar gyfer defnyddwyr y llyfrgell. Drwy drawsnewid y gofod gyda gwaith celf llachar a modern, bydd y llecyn lles pwrpasol yn croesawu staff y GIG gan gynnig cyfle iddynt ymlacio, gorffwys a dod o hyd i wybodaeth am ystod o gymorth iechyd meddwl a lles. Gellir ei ddefnyddio hefyd i gynnal gweithgareddau sy'n ymwneud â lles fel clybiau llyfrau a gweithdai ymwybyddiaeth ofalgar.



Gwelliannau i'r Uned Achosion Brys Pediatriig

Mae'r Uned Achosion Brys Pediatriig yn Ysbyty Athrofaol Cymru wedi'i thrawsnewid gydag ystod o finylau llachar, lliwgar yn addurno'r waliau. Mae'r delweddau hyd yn oed yn cynnwys masgot yr adran, sef draig goch sydd â rhwymynnau a phlastrau, gyda'r gobaith o wneud i gleifion, ymwelwyr a staff wenu.

Profwyd y gall ein hamgylchedd gael effaith sylfaenol ar ein hymddygiad wrth dderbyn gofal. Mae creu lle sy'n rhoi profiad gwell i gleifion, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn hollbwysig i helpu i sicrhau arhosiad cysurus, mwy hamddenol. Yn ystod tymor y gaeaf, ni fu hybu morâl erioed mor bwysig.

Gwnaed y newidiadau hyn yn bosibl diolch i rodd hael gan Nathaniel Cars, Panel Cynigion Loteri'r Staff yr Elusen Iechyd, ac aelodau staff hyd yn oed yn dod at ei gilydd i godi arian.



Campfa Adsefydlu'r Asgwrn Cefn wedi'i drawsnewid gyda gwaith celf ysgogiadol



Yn ddiweddar, rhoddwyd caniatâd i brosiect a ariennir ar y cyd gan Banel Cynigion Loteri'r Staff a Chronfa Waddol Morgan i drawsnewid waliau Campfa Adsefydlu'r Asgwrn Cefn yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau, er mwyn ei gwneud yn ofod mwy bywiog a chroesawgar.

Cafodd y Gwasanaethau Asgwrn Cefn eu hadleoli o Ysbyty Rookwood i Ysbyty Athrofaol Llandochoau, ac mae'r cyfleusterau adsefydlu newydd yn rhoi'r cyfle gorau posibl i gleifion adfer a gwella eu proses adsefydlu trwy ddefnyddio'r offer diweddaraf.

Bydd yr amgylchedd gwell o fudd i ddefnyddwyr y gampfa Adsefydlu'r Asgwrn Cefn, gan ysbrydoli cleifion presennol ac yn y dyfodol trwy gydol eu hadsefydlu.

Grŵp Crochenwaith Therapi Galwedigaethol

Mae Loteri'r Staff wedi cefnogi cais i gyflwyno gweithdai crochenwaith i'r cleifion yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion sy'n cael eu Hadsefydlu yn Hafan y Coed. Cyflwynwyd y cais gan y tîm Therapi Galwedigaethol sy'n gweithio ochr yn ochr ag ystod eang o gyflyrau iechyd meddwl sy'n aml yn arwain at dderbyniadau hir yn yr ysbyty.

Bydd y gweithdai dan ofal y Tîm Therapi Galwedigaethol ochr yn ochr â Gweithdy Crochenwaith Caerdydd, sefydliad cymunedol lleol. Bydd y cwrs 6 wythnos cychwynnol yn cwmpasu hanfodion taflu, adeiladu â dwylo, gwaith tîm, a bydd yn cynnwys sesiynau 1-1.

Yn flaenorol, roedd diffyg amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r cleifion yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion sy'n cael eu Hadsefydlu, a waethygyd gan y pandemig. Mae gan y gweithdai crochenwaith y potensial i roi mwy o drefn i'r unigolion, ail-integreiddio cleifion ar draws sawl ward, a dyfarnu cymhwyster ar ôl cwblhau'r cwrs. Gyda chefnogaeth ymchwil manwl, byddai'r gweithgaredd yn cynorthwyo cleifion gydag ymgysylltu, lles, sgiliau rhyngweithio cymdeithasol, ysgogiadau synhwyrdd, yn ogystal â rhoi cyfle iddynt fynegi eu hunain yn greadigol.

Gwelliannau i'r Amgylchedd yn y Clinig Cyn Geni - Ysbyty Athrofaol Llandochau

Yn ddiweddar, mae tîm Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi cefnogi prosiect i wella amgylchedd y Clinig Cyn Geni yn Ysbyty Athrofaol Llandochau lle mae'r Clinig Enfys hefyd wedi'i leoli.

Mae'r Clinig Enfys yn gofalu am fenywod a'u partneriaid sydd, yn drist iawn, wedi colli babi neu fabanod yn ystod beichiogrwydd, neu'n fuan ar ôl genedigaeth. Yn y clinig, mae teuluoedd yn cyfarfod â chlinigwyr i ddeall pam y bu farw eu babi ac i gynllunio beichiogrwydd yn y dyfodol os dymunir. Mae'r tîm clinigol yn darparu gofal arbenigol i'r menywod hyn yn ystod beichiogrwydd dilynol er mwyn lleihau'r risg y byddant yn wynebu'r un sefyllfa eto, a darparu gofal parhaol i'r teuluoedd hyn.



Roedd Panel Cynigion Loteri'r Staff wrth eu bodd yn caniatáu'r arian oedd yn weddill i wella'r manau aros a oedd wedi'u cynnwys yn y cais gwella cychwynnol gan y menywod a fynychai'r clinig. Gan gydnabod bod menywod a phartneriaid sy'n mynychu'r clinig yn wynebu rhai o gyfnodau mwyaf trallodus eu bywydau, mae gwella'r amgylchedd y maent yn ei ddefnyddio yn gam cyntaf i sicrhau eu bod yn cael ymdeimlad o obaith a sicrwydd.

Dementia Darnings

Ym mis Mai 2021, gwnaeth cyllid gan Loteri'r Staff alluogi'r prosiect 'Dementia Darnings' rhyng-genhedlaeth i ddod i Oriel yr Aelwyd yn Ysbyty Athrofaol Llandochau. Roedd hyn yn cynnwys arddangosfa gan yr artist Jenni Dutton, sesiynau lluosog 'Cwrdd â'r Artist', yn ogystal â gweithdai ysgrifennu creadigol gan ferch Jenni, Briony Goffin.

Yn y corff hwn o waith, mae Jenni yn ymateb i ddiagnosis dementia ei mam drwy ddefnyddio pwytho i ail-greu portreadau o'i mam o hen albymau lluniau. Mae'r arddangosfa wedi teithio'n helaeth o amgylch y DU ac wedi teithio i Ewrop a Tsieina. Dyma oedd y tro cyntaf i'r gwaith celf gael ei arddangos yng Nghymru.

Cynhaliodd merch Jenni, Briony Goffin, weithdai ysgrifennu creadigol wedi eu hysbrydoli gan arddangosfa Dementia Darnings sy'n archwilio pŵer Ysgrifennu fel Teyrnged. Cafodd y cyfranogwyr gyfle i ysgrifennu teyrnged i rywun arbennig yn eu bywydau ar ffurf cerdd rhestr syml.



Gemau Tecstio i Gleifion

Roedd hi'n bleser gan dîm y Celfyddydau ar gyfer lechyd a Lles roi prosiect gemau cyntaf Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer lechyd a Lles ar waith gyda'r Dylunydd Modwlar, Jordan Draper.

Gyda'r rhan fwyaf o gleifion bellach yn gorfod mynd i apwyntiadau ysbyty ar eu pen eu hunain, y bwriad yw bod y pedair gêm yn cael eu chwarae gan glaf mewn lleoliad ysbyty gyda'i ffrind neu aelod o'r teulu sydd gartref. Mae pob gêm yn Gymraeg a Saesneg, mae thema greadigol i bob gêm ac mae'n seiliedig ar gyfnewid negeseuon testun ar ffôn symudol y claf ei hun.



Celfyddydau ar gyfer Wardiau MHSOP

Mae Panel Cynigion Loteri'r Staff yn cefnogi prosiect i ddatblygu a hyrwyddo cyfres o sesiynau celfyddydol creadigol ar gyfer Gwasanaethau lechyd Meddwl i Bobl Hŷn (MHSOP) yn Ysbyty Athrofaol Llandochau ac Ysbyty'r Barri. O fewn gofal dementia, mae'n hysbys bod agweddau ar rythm a phatrymau'n cael eu cynnal pan fydd sgiliau prosesu a gweithredol eraill yn aml yn cael eu colli. Mae cipio'r gallu hwn i ymgysylltu yn bwysig ac yn dod â llawenydd i'r cleifion a'u teulu. Gall ganiatáu math o gyfathrebu na welir yn aml o ddydd i ddydd.



Bydd y sesiynau yn dod â thri math o gelf i'r cleifion ar y wardiau. Y cyntaf fydd artist mwy traddodiadol sy'n cydweithio â MHSOP i sefydlu sesiynau celf gweledol wythnosol a fydd yn archwilio creu celf trwy gyfryngau amrywiol. Bydd yr ail gydweithrediad gyda Rubicon Dance a fydd yn darparu sesiynau symud a dawns gwirioneddol ryngweithiol i gleifion yn fisol. Y drydedd ffurf gelf fydd cerddoriaeth, gan gyflwyno rhaglen blwyddyn o hyd o sesiynau/cyngherddau wythnosol gan ddau gerddor a fydd yn caniatáu i gleifion gymryd rhan mewn cerddoriaeth, cân, rhyngweithio a rhythm.

Bydd y sesiynau o fudd enfawr i gleifion MHSOP, a bydd yn dathlu'r pŵer sydd gan y celfyddydau i wella iechyd a lles. Bydd y sesiynau celf yn caniatáu i gleifion sydd â nam cyfathrebu, i gyfathrebu drwy gelf, cyffwrdd a symud. Bydd hefyd yn helpu i gynnal sgiliau megis cydsymud rhwng y llaw a'r llygad. Bydd sesiynau Dawns Rubicon yn hyrwyddo ac yn annog cleifion i symud a mynegi eu hunain trwy ddawns. Bydd yr agwedd gerddoriaeth yn ymgysylltu, ac yn cysylltu â'r foment bresennol.

Cystadleuaeth Cacennau Platinwm

I ddathlu Jiwbilî Platinwm y Frenhines, cefnogodd Panel Cynigion Loteri'r Staff brosiect y Celfyddydau ar gyfer lechyd a Lles i ddyfarnu gwobrau i enillwyr y Gystadleuaeth Cacennau Platinwm.



Wrth i'r diweddar Ei Mawrhydi'r Frenhines Elisabeth chwilio am bwddin buddugol i nodi ei 70 mlynedd fel Brenhines, gwnaeth rhaglen y Celfyddydau ar gyfer lechyd a Lles alw ar bob adran ar draws Bwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddylunio cacen. Rhoddwyd cerdyn rhodd Amazon gwerth £50 i'r ward fuddugol a chacen Jiwbilî Platinwm wedi'i gwneud yn arbennig, a derbyniodd y rhai yn yr ail safle fasgedi ffrwythau.

Pam ddylech CHI gefnogi Loteri'r Staff!

Mae Panel Cynigion Loteri'r Staff yn ymdrechu i gyflawni'r saith nod lles a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ynghyd â defnyddio'r pum dull o weithio; hirdymor, atal, integreiddio, cydweithredu a chynnwys.

Drwy ymuno â Loteri'r Staff, rydych yn cefnogi ystod eang o brosiectau a ariennir gan y Panel Cynigion, sy'n gwella gwasanaethau niferus ar draws y BIP. Drwy'r cyllid hwn, rydych yn helpu'r Panel Cynigion a'r Elusen lechyd i wella pethau i'n staff a'n cleifion, gan ein helpu ni i gyd i gydweithio i greu Cymru Lewyrchus, Iachach a Chydnerth.

Os hoffech ymuno â Loteri'r Staff, gellir cwblhau ffurflenni cais yma: <https://healthcharity.wales/staff-lottery/>. Os hoffech wneud cais am gyllid gan Banel Cynigion Loteri'r Staff, cysylltwch â fundraising.cav@wales.nhs.uk i gael manylion.

Mae Elusen lechyd Caerdydd a'r Fro yn eich annog i ymuno â Loteri'r Staff a gwneud cais am gyllid, sy'n gallu gwella eich adran neu wasanaeth a hysbysu eraill am fuddiannau ymuno â Loteri'r Staff. A phwy a wŷr, efallai mai chi fydd ein henillydd nesaf?